**<u>COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT</u>**

**REPORT TO:** **<u>THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR</u>**

**SUBJECT:** **<u>CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 27 IONAWR 2022 DYDD IAU, 27 IONAWR 2022</u>**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: J. HOLT (CADEIRYDD)

Councillors M. Day (Deputy Chair)
D. Bevan
J. Collins
M. Cook
M. Cross
D. Davies
G. A. Davies
G. L. Davies
P. Edwards
D. Hancock
K. Hayden
S. Healy
J. Hill
W. Hodgins
M. Holland
J. Mason
H. McCarthy
C. Meredith
J. Millard
M. Moore
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
G. Paulsen
K. Pritchard
K. Rowson
T. Sharrem
T. Smith
B. Summers
G. Thomas

S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| |
|---|
| Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Prif Swyddog Adnoddau |
| Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid |
| Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol |
| Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau |
| Pennaeth Adfywio |
| Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cymunedol |
| Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata |
| Swyddog y Wasg a Chyhoeddusrwydd |
| Swyddog Polisi (Ymgysylltu a Chydraddoldeb) |
| HEFYD: Darcey Howell – sy’n gadael swydd Maer Ieuenctid |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **DIWRNOD COFIO’R HOLOCOST – 27 IONAWR 2022**<br><br>Dangosodd aelodau a swyddogion eu parch gyda munud o dawelwch i gofio’r rhai a gollodd ac a roddodd eu bywydau yn ystod yr Holocost. | |
| No. 2 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 3** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr N. Daniels, L. Elias a B. Thomas. | |
| **No. 4** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiadau dilynol o fuddiant:<br><br>**Eitem Rhif 25: Gorsaf Drosglwyddo Gwastraff a Chanolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi**<br><br>Cynghorwyr M. Cook a B. Summers | |
| **No. 5** | **<u>DARCEY HOWELL – SY'N GADAEL SWYDD MAER IEUENCTID</u>**<br><br>Estynnwyd croeso cynnes i Darcey Howell, sy'n gadael swydd Maer Ieuenctid Blaenau Gwent.<br><br>Dechreuodd Darcey drwy ddweud ei bod yn fraint enfawr i fedru siarad gyda'r Cyngor am yr hyn a gyflawnodd drwy fod yn Faer Ieuenctid ac i sôn am rai o'r cyfleoedd gwych a gafodd.<br><br>Esboniodd Darcey iddi ymuno â'r Fforwm Ieuenctid yn ôl yn 2018 pan oedd yn fach ym mlwyddyn 7. Erbyn 2019 roedd wedi magu digon o hyder i sefyll i fod yn Ddirprwy Faer Ieuenctid. Ychydig a wyddai ar y pryd beth oedd o'i blaen a'r hyn y byddai yn ei wneud yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Pan gafodd ei hethol, roedd Darcey wedi penderfynu mai ei blaenoriaeth fyddai gwella iechyd meddwl drwy chwaraeon a gweithgaredd corfforol. Dewisodd y flaenoriaeth hon oherwydd ei fod yn mynd yn dda gyda blaenoriaeth Charlotte, y Maer Ieuenctid blaenorol a hefyd oherwydd ei bod yn hoff iawn o chwaraeon ac yn weithgar yn ei chlwb nofio (hefyd yn Is-gapten) a chlwb pêl-rwyd. Fodd bynnag, sylweddolai Darcey nad yw pob person ifanc yn cael cyfle i wneud hyn ac roedd wedi ceisio codi ymwybyddiaeth fod gweithgaredd corfforol yn fwy na dim ond bod yn rhan o glwb neu gampfa, a bod llawer o agweddau iddo.<br><br>Mynychodd Darcey gampfa gymunedol leol gyda'i mam a sylweddolodd na fyddai peth o'r offer yn addas ar gyfer grŵp oedran iau. Gweithiodd gyda pherchennog y gampfa i gyflwyno | |

cais am gyllid Cash4U ar gyfer offer chwaraeon fel y gallai pobl ifanc gymryd rhan mewn Rhaglen Academi Ieuenctid oedd yn cynnwys gwirfoddoli. Roedd y cais hwn yn llwyddiannus a phrynwyd yr holl offer ar ran y gampfa. Yn anffodus tarodd pandemig Covid ac ni aeth y prosiect yn ôl y bwriad a chafodd y Rhaglen Academi Ieuenctid ei gohirio. Ym mis Medi 2021 mynychodd Darcey ac aelodau o'r Fforwm Ieuenctid y gampfa i gymryd rhan mewn sesiwn yn defnyddio'r offer newydd a brynwyd fel rhan o'r cynnig ac roedd yn falch i adrodd fod rhannau cyntaf y rhaglen bellach wedi dechrau gyda 16 o bobl ifanc wedi cofrestru a 20 sesiwn ieuenctid wedi eu cyflwyno hyd yma. Roedd Darcey hefyd yn ddiweddar wedi cyflwyno cais arall am gyllid ar gyfer y clwb nofio y mae'n hyfforddi ynddo – byddai hyn yn rhoi hyfforddiant i aelodau newydd, eu galluogi i wirfoddoli fel hyfforddwyr ac a fyddai hefyd yn darparu offer newydd tebyg i beli meddyginiaeth a blociau plymio.

Mae bod yn rhan o'r Fforwm Ieuenctid hefyd wedi rhoi llwyfan i Darcey gymryd rhan mewn llawer o gyfleoedd, gyda'r cyntaf y Cynulliad Newid Hinsawdd cyntaf yng Nghymru. Yn Ionawr 2021 fel Maer Ieuenctid gofynnwyd iddi hi a Mara, aelod arall o'r Fforwm Ieuenctid, i fod yn rhan o'r grŵp cynllunio ar gyfer y Cynulliad Newid Hinsawdd. Roedd hyn yn golygu mynychu cyfarfodydd rheolaidd, gweithio gyda gwahanol bartneriaid ar draws y cyngor, asiantaethau allanol a chymuned Blaenau Gwent. Cynhaliwyd y Cynulliad Newid Hinsawdd dros ddau benwythnos ym mis Mawrth 2021. Yn ystod hyn daeth aelodau o'r gymuned ynghyd i edrych ar fynd i'r afael â newid hinsawdd yn gyffredinol, ond yn fwy pwysig yn canolbwyntio ar yr hyn y gellid ei wneud ym Mlaenau Gwent tuag at hyn a phleidleisio ar y materion allweddol i weithredu arnynt. Roedd Darcey wedi cefnogi cynnal y sesiynau drwy gynnig cymorth TG, bod yng ngofal y lobi ar gyfer Zoom yn ogystal â chymryd rhan wrth ochr ei chyd-aelodau fel siaradwr yn y digwyddiad. Roedd cynrychiolwyr y fforwm wedi rhoi sylw i newidiadau syml y gallai pobl eu gwneud i fywydau bob dydd i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Roedd y profiad hwn wedi galluogi Darcey i gwrdd gyda llawer o wahanol bobl, gweithio ar rywbeth y teimlai'n angerddol iawn amdano, ennill sgiliau newydd a mynd â hi allan o'i man cysurus ond roedd yn falch i gyhoeddi y byddai'n parhau i fod yn rhan o'r gwaith hwn yn y dyfodol.

Fodd bynnag, nid oedd taith Darcey fel Maer Ieuenctid wedi dod i

ben yno. roedd bod yn rhan o'r Fforwm Ieuenctid wedi ei galluogi i fod yn rhan o:

> Ymgynghoriadau ar faterion tebyg i iechyd meddwl, plismona, llesiant, democratiaeth a sicrhau y caiff lleisiau plant a phobl ifanc eu clywed.
>
> Ymgyrchoedd tebyg i Ddiwrnod Rhyngwladol Menywod, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ac ymwybyddiaeth am y Cyfrifiad.
>
> Fforwm Ieuenctid Rhanbarthol, cadeirio digwyddiad Hawl i Holi Comisiynydd yr Heddlu a bod yn rhan o gynllunio adferiad Covid ar gyfer pobl ifanc.
>
> Cymryd rhan mewn panel cyfweld ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid a helpu i ddatblygu ymgyrch Delwedd Corff wrth ochr y Fforwm Ieuenctid, oedd wedi ennill y wobr am y ffilm wyddonol ac addysgol orau yng Ngŵyl Ffilm Ryngwladol gyntaf Cymru.

Daeth Darcey i ben drwy ddiolch i Aelodau am eu cefnogaeth ac am wrando ar ei thaith mewn democratiaeth hyd yma.

Dywedodd y Cadeirydd fod Darcey wedi cyflawni llawer iawn yn ystod ei blwyddyn yn y swydd er gwaethaf pandemig Covid. Mae egni ac ymrwymiad Darcey i'w ganmol a mynegodd y Cadeirydd ei dymuniadau gorau i Darcey ar gyfer y dyfodol.

Adleisiodd Aelodau y sylwadau hyn a dweud fod iechyd a llesiant meddwl pobl ifanc yn anferthol o bwysig yn arbennig yn ystod y pandemig a llongyfarchwyd Darcey ar symud ymlaen â hyn fel ei blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn a chafodd ei chanmol ar ei thaith wirioneddol ysbrydoledig hyd yma. Estynnodd Aelodau eu dymuniadau gorau i Darcey ar gyfer y dyfodol.

Dechreuodd Aelod arall drwy ddweud nad oedd yn amharchus i Gadeirydd y Cyngor sy'n gwneud gwaith rhagorol ond ei fod yn gwirioneddol werthfawrogi rôl Blaenau Gwent, na ddylai byth fod wedi ei diddymu. Roedd rôl Maer Blaenau Gwent yn rhan hanfodol o redeg y Fwrdeistref Sirol a dywedodd y gobeithiai y byddai'r swydd yn cael ei hadfer rywbryd yn y dyfodol er mwyn cyflawni swydd mewn modd tebyg i Darcey, ac fe'i canmolodd am ei gwaith yn ystod ei chyfnod fel Maer Ieuenctid.

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| No. 6 | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**<br><br>**Croeso**<br><br>Estynnwyd croeso cynnes i'r Cynghorydd David Wilkshire.<br><br>Manteisiodd y Cynghorydd Wilkshire ar y cyfle i fynegi ei werthfawrogiad i Aelodau a swyddogion am y negeseuon caredig a gafodd yn ystod y cyfnod anodd hwn.<br><br>**Salwch**<br>Er y derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb, estynnwyd croeso i'r Cynghorydd Lyn Elias yn dilyn ei lawdriniaeth.<br><br>**Gwobr Aur y Lluoedd Arfog**<br><br>Cyhoeddodd y Cadeirydd yr hysbyswyd y Cyngor iddo fod yn llwyddiannus wrth ennill Gwobr Aur y Lluoedd Arfog ac yn absenoldeb yr Hyrwyddwr Lluoedd Arfog, dywedodd fod Gwobr Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn yn adlewyrchu ymrwymiad hirsefydlog y Cyngor i gefnogi'r gymuned Lluoedd Arfog. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi'r sgiliau y gallai rhai sy'n gadael gofal ac aelodau'r lluoedd wrth gefn eu trosglwyddo i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i'r gymuned. Roedd y Cyngor yn hynod falch i dderbyn y gydnabyddiaeth hon ac yn ymroddedig i barhau'r gwaith.<br><br>Mae'r Wobr Aur yn cydnabod gwaith y Cyngor yn rhoi polisïau cyflogaeth cefnogol ar waith ar gyfer cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog, aelodau lluoedd wrth gefn a theuluoedd y rhai sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac yn hyrwyddo cyfleoedd swyddi yn yr awdurdod i'r gymuned Lluoedd Arfog.<br><br>Mae'r Wobr hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad ehangach y Cyngor i gefnogi'r gymuned Lluoedd Arfog ym Mlaenauj Gwent, yn cynnwys:<br><br>• darparu hyfforddiant i dros 200 o staff rheng-flaen am ddynodi a chefnogi anghenion aelodau cyfredol a chyn aelodau'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd; a<br><br>• diwygio'r polisi tai i sicrhau nad yw rhai sy'n gadael y lluoedd arfog a'u partneriaid dan anfantais pan fyddant yn gwneud cais am gartref pan ddychwelant i fywyd sifilian ym Mlaenau | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwent.<br><br>**<u>Eitem Rhif 25 – Gorsaf Drosglwyddo Gwastraff a chanolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi</u>**<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y cafodd yr eitem uchod ei gohirio ac y caiff ei hystyried mewn cyfarfod arbennig o’r Cyngor a drefnwyd ar gyfer 7 Chwefror 2022. | |
| **No. 7** | **<u>LLYFR COFNODION – HYDREF-RHAGFYR 2021</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Llyfr Cofnodion ar gyfer y cyfnod Hydref – Rhagfyr 2021 i’w ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gadarnhau’r cofnodion. | |
| **No. 8** | **<u>CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 9** | **<u>PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION CYNLLUNIO)</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 10** | **<u>PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION CYNLLUNIO)</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 11** | **<u>PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION CYNLLUNIO)</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 12** | **<u>PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 13** | **PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 14** | **PWYLLGOR CRAFFU TROSOLWG CORFFORAETHOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 15** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 16** | **PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 17** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 18** | **PWYLLGOR CRAFFU TROSOLWG CORFFORAETHOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 19** | **PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 20** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 21** | **CWESTIYNAU AELODAU**<br><br>Ni chafodd unrhyw gwestiynau eu cyflwyno gan Aelodau. | |
| **No. 22** | **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**<br><br>Ni chafodd unrhyw gwestiynau eu cyflwyno gan aelodau o'r cyhoedd. | |

| No. 23 | **<u>ADRODDIAD ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI TRYSORLYS – 1 EBRILL 2021 I 30 MEDI 2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad sy'n rhoi crynodeb o'r gweithgaredd Rheoli Trysorlys a wnaed rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2021 yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA. Aeth y Prif Swyddog ymlaen drwy dynnu sylw at y pwyntiau perthnasol dilynol:<br><br>- Cafodd y rhagolwg o gyfraddau banc ei ddiweddaru ers y craffwyd ar yr adroddiad i adlewyrchu effaith y newid annisgwyl yng nghyfradd Banc Lloegr a gynyddodd gan 0.25% yn Rhagfyr 2021. Yn flaenorol disgwylid y cynnydd hwn yn ail chwarter 2022. Cafodd y tabl yn yr atodiad i'r adroddiad ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newid hwn er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael i Aelodau.<br><br>- Rhoddir crynodeb o'r gweithgareddau yn y tabl ym mharagraff 5.1.6 yr adroddiad ac er yr argyfwng ariannol yng nghyswllt y pandemig, mae'r awdurdod wedi perfformio'n dda yn hanner cyntaf y flwyddyn yng nghyswllt ei weithgareddau rheoli trysorlys, gydag enillion buddsoddiad o £13,000 yn ystod y cyfnod gyda chyfradd log gyfartalog o 0.02% sydd yn uwch na'r gyfradd meincnod o -0.8%. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu effaith y pandemig ar gyfraddau sylfaen banciau ac yn ei dro gyfraddau llog ar fuddsoddiadau.<br><br>- Roedd y llogau ar fuddsoddiad yn y gyllideb flynyddol o £6,000 a rhagorwyd ar hynny yn rhannol oherwydd y buddsoddiad yng nghyswllt arian seilwaith rheilffordd.<br><br>- Talwyd cyfradd log gyfartalog o 0.31% ar fenthyciadau dros dro yn ystod y flwyddyn o gymharu â chyfradd meincnod o 1.7% a arweiniodd at dalu £49,000 mewn taliadau llog ar gyfer y cyfnod 6-mis o gymharu â chyllideb blwyddyn lawn o £425,000. Nodwyd fod y llog taladwy am y flwyddyn lawn yn rhwydd o fewn y gyllideb ac y cafodd y llog taladwy gan yr awdurdod ei ostwng cyn belled ag sy'n bosibl ac mae hyn yn dystiolaeth o berfformiad da.<br><br>- Cydymffurfiwyd â'r holl derfynau rheoli trysorlys a | |
|---|---|---|

dangosyddion darbodus yn ystod y flwyddyn ac ni wnaed unrhyw fuddsoddiadau yn ystod y cyfnod hwn wedi cael unrhyw anawsterau mewn ad-dalu ei logau. Felly ni fu'r awdurdod yn agored i unrhyw golled ariannol fel canlyniad i'r hinsawdd economaidd anodd.

- Daeth y Prif Swyddog i ben drwy ddweud y byddai cyfleoedd buddsoddi ariannol eraill yn parhau i gael ei fonitro yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol ac y rhoddir adroddiad i Aelodau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Wedyn rhoddwyd cyfle i aelodau i godi cwestiynau/rhoi sylwadau ar yr adroddiad.

Cyfeiriodd Aelod y Grŵp Llafur at baragraff 5.2.2 yr adroddiad ac yn neilltuol y benthyciad rheilffordd o £70m a gofynnodd am sicrwydd gan ofyn os oedd y Prif Swyddog Adnoddau yn hyderus y byddai cyfleoedd buddsoddi eraill yn dod ar gael.

Dechreuodd y Prif Swyddog Adnoddau drwy ddweud ei bod yn hyderus y daw cyfleoedd buddsoddi eraill ar gael. dywedodd y Prif Swyddog y cafodd cyfleoedd ychwanegol eisoes eu dynodi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth ochr cyfleoedd buddsoddi traddodiadol yr awdurdod a gwnaed trefniadau eraill ar gyfer buddsoddi. Daeth y Prif Swyddog i ben drwy ailddweud ei bod yn sicr y dynodir cyfleoedd pellach wrth symud ymlaen.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Swyddog y cafodd y benthyciad rheilffordd ei gategoreiddio fel benthyca hirdymor.

Dywedodd Aelod fod y gwasanaeth i Crosskeys wedi dechrau ar 13 Rhagfyr 2021 a holodd pryd mae'r Cyngor yn debyg o dderbyn dogn gyntaf incwm o Crosskeys a gorsafoedd eraill ar hyd y llwybr, a fyddai'n helpu gydag ad-daliad y benthyciad.

Atebodd y Prif Swyddog y gwarentir y bydd y Cyngor fel rhan o'r Cytundeb Pedair Ochrog yn derbyn ffrwd incwm i ad-dalu'r benthyciad i Lywodraeth Cymru dros gyfnod 50-mlynedd y benthyciad ac mae'r cytundeb yn nodi nad yw'n rhaid i'r ad-daliadau benthyciad ddechrau nes i'r Cyngor dderbyn yr incwm. Fodd bynnag, yn nhermau pryd y disgwylir derbyn yr incwm, dywedodd y Prif Swyddog y byddai'n dilyn y mater a rhoi adroddiad yn ôl.

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD, yn unfrydol yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef nodi'r gweithgaredd rheoli trysorlys yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 a derbyn y cofnod o berfformiad a chydymffurfiaeth a gyflawnwyd yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2021/22. | |
| **No. 24** | **ADOLYGIAD PERFFORMIAD BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS RANBARTH CAERDYDD CHWARTER 2 2020/21**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr drwy ddweud fod hwn yn adroddiad rheolaidd sy'n rhoi manylion cynnydd a gweithgareddau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Nodwyd fod Blaenau Gwent yn rhan o bartneriaeth Rhanbarth y De Ddwyrain a bod yr adroddiad yn benodol yn rhoi diweddariad ar y prosiectau a gyflwynir yn y Fwrdeistref Sirol, sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r bartneriaeth. Mae'r prosiectau allweddol hyn yn cynnwys Metro Plus, hybu a chyflwyno cerbydau allyriad isel iawn (yn neilltuol tacsis), cynllun tai yn Ashvale, Tredegar a chydnabod llwyddiant rhaglen prentisiaeth Anelu'n Uchel, gyda chynllun peilot rhanbarthol ar y gweill gyda'r nod o ymestyn y rhaglen ar draws y rhanbarth.<br><br>Mae'r prosiectau hyn wedi arwain at ychydig dros £2m o fuddsoddiad yn y Fwrdeistref Sirol ar hyn o bryd. Nodwyd fod y Pwyllgor Craffu Adfywio wedi ystyried a chefnogi'r adroddiad ym mis Rhagfyr 2021.<br><br>Wedyn daeth y Rheolwr Gyfarwyddwr i ben drwy roi diweddariad yng nghyswllt datblygu'r Cydbwyllgorau Corfforedig Rhanbarthol a dywedodd fod deddfwriaeth yn awr yn ei gwneud yn ofynnol i'r pedwar rhanbarth yng Nghymru i sefydlu Cydbwyllgor Corfforedig yn 2022. Mae cyfarfodydd cyntaf y Cydbwyllgorau hyn yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd a chynhelir cyfarfod cyntaf Cydbwyllgor Corfforedig De Ddwyrain Cymru yr wythnos ddilynol i osod y gyllideb (erbyn 31 Ionawr 2022) ar gyfer y flwyddyn i ddod. Daw pwerau newydd i'r pwyllgorau hyn i rym ym mis Mehefin 2022.<br><br>Wedyn rhoddwyd cyfle i Aelodau godi cwestiynau a rhoi sylwadau ar yr adroddiad.<br><br>**Cynllun Metro Plus – Dolen Abertyleri –** Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur at baragraffau 2.4 i 2.6 yr adroddiad sy'n cyfeirio at Ddolen Abertyleri y cynllun Metro Plus a mynegodd ei bryder, er y | |

bu trafodaethau yn mynd rhagddynt am y prosiect hwn ers peth amser, na ddaethpwyd i gasgliad pendant yng nghyswllt y cyllid ar gyfer y fenter. Dywedodd y credai pe na bai'r cynllun yn dod i ffrwyth y gellid efallai fuddsoddi'r arian mewn man arall. Gofynnodd am ddiweddariad yng nghyswllt y prosiect hwn a'r trafodaethau a fu hyd yma.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Nodwyd fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi rhaglen 'Adfer eich Rheilffyrdd' yn ystod y flwyddyn flaenorol ac wedi gwahodd cynigion ar draws Prydain fel rhan o'r agenda 'Codi'r Gwastad' i ddatblygu rheilffyrdd mewn gwahanol gyfnodau. Fel rhan o'r rhaglen honno roedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o gynlluniau, gyda Dolen Abertyleri yn un cynllun o'r fath. Mae dialog yn parhau rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru am y cynllun a disgwylir cyhoeddiad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar y rhaglen hon – byddai hyn yn rhoi arwydd o lle mae'r cynllun arni yn nhermau blaenoriaethau cyllid. Nodwyd fod perthynas rhwng cynllun Dolen Abertyleri â'r gwaith prosiect sy'n mynd rhagddo ar brif reilffordd Cwm Ebwy.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur fod peth amheuaeth am y cynllun a'i farn ef oedd bod y prosiect yn pylu. Gofynnodd os y byddai'n deg dweud yn bendant nad oedd y cynllun unrhyw le yn nes at dderbyn cyllid nag oedd 5 mlynedd yn ôl.

Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cynhaliwyd dialog am y tro cyntaf am ffynonellau cyllid posibl ar gyfer y cynllun a bod gwaith datblygu a dylunio GRIP 3 ar lein Abertyleri gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei ddatblygu gan Trafnidiaeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn trafod cwmpas y prosiect a natur y gwaith. Mae'r cynllun ymhellach ymlaen o ran y broses datblygu ac mae'r proseict rheilffordd £70m wedi agor y cyfle i wireddu gwasanaeth Abertyleri. Er bod y prosiect yn symud ymlaen, nodwyd fod prosiectau rheilffordd yn araf i ddatblygu ac yn gymhleth oherwydd bod nifer o sefydliadau'n cymryd rhan yn y cynllun ac mae'r rhyngwyneb hwn yn cyflwyno cymhlethdodau o ran amserlenni.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd â blaenoriaethau ariannol gwahanol ac chredai fod dal i angen trafod gyda'r ddwy lywodraeth

yn nhermau sicrhau cyllid ar gyfer y prosiect ac nad oedd yr awdurdod fawr yn nes at i'r cynllun ddod i ffrwyth. Ychwanegodd fod y bartneriaeth gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gyfle i Flaenau Gwent ond dywedodd, os nad oes cynnydd, bod angen i'r awdurdod ganfod proseict arall i'w ddatblygu mewn man arall yn y Fwrdeistref Sirol.

Mewn ymateb i gwestiwn am weithgaredd ger Cwrt Brachty, Aber-bîg, tybiai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y gweithgaredd hwn yn gysylltiedig â gwaith dylunio GRIP 3 a wneir i'r brif reilffordd a'r rhyngwyneb rhwng y brif linell a dolen Abertyleri er mwyn llywio'r cynlluniau dylunio a chostau.

**Gwasanaeth Trên Olaf ar ddydd Sadwrn –** mynegodd Aelod ei gonsyrn fod y gwasanaeth trên olaf o Gaerdydd ar ddyddiau Sadwrn yn cael ei ganslo ar fyr rybudd ac nad oes gwasanaeth bws yn lle yn cael ei ddarparu. Gofynnodd i swyddogion ymchwilio a gohebu gyda Trafnidiaeth Cymru am y mater hwn.

**Gwasanaeth Bws E3 –** dywedodd Aelod fod yr Arweinydd wedi siarad yn flaenorol am flaenoriaeth Metro a phwysigrwydd cysylltiadau trafnidiaeth ar draws y cymoedd. Gofynnodd i'r Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd pryd y cafodd wybod ac a ymgynghorwyd ag ef fod y gwasanaeth bws E3 rhwng Aber-bîg a Cwm yn dod i ben. Roedd hyn wedi gadael Cwm gyda'r gwasanaeth bws gwaethaf yn y Fwrdeistref Sirol ac wedi gadael pobl oedd eisiau teithio dwy filltir i Cwm yn gorfod gwneud taith 55 munud. Esboniodd fod pobl oedrannus sydd angen mynd i'r ysbyty yn gorfod cerdded o Aber-bîg i'r Heol Fasnachol, gyda thaith bws 55 munud wedyn (drwy newid yng Nglynebwy). Dywedodd yr Aelod fod hyn yn hollol annerbyniol a gofynnodd i'r Aelod Gweithredol gwrdd gyda'r cyhoedd yn Cwm ac Aber-bîg ac i gysylltu gyda Llywodraeth Cymru am reoleiddio bysus.

Dywedodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd y cynhaliwyd trafodaethau gyda gweithredwr i ganfod os y gellid ailnegodi rhai o'r llwybrau ond mae angen cynnal dialog gyda darparwyr gwasanaeth eraill ar draws y Fwrdeistref Sirol. Croesawodd yr ymagwedd at gwrdd gyda Llywodraeth Cymru a chynigiodd i'r Aelod gymryd rhan yn y trafodaethau hynny.

Dywedodd yr Aelod fod angen system drafnidiaeth integredig a byddai'n hapus i fynychu cyfarfod ar y cyd gyda'r Aelod Gweithredol a Llywodraeth Cymru. Yn y cyfamser gofynnodd am i

ddarpariaeth argyfwng fod ar gael ar gyfer preswylwyr Aber-bîg a dywedodd y gellid ariannu hyn o'r cronfeydd wrth gefn.

Dywedodd Aelod Ward Cwm fod ganddo fwy na 47 mlynedd o brofiad o weithio i wasanaeth bws a bod ardal Cwm wedi ei thorri bant. Dywedodd yr hoffai ef hefyd gymryd rhan yn y trafodaethau o hyn ymlaen.

Mewn ymateb i bryder a gododd Aelod nad oedd y Cadeirydd yn caniatáu rhai meysydd o gwestiynau, dywedodd mai hwn oedd yr unig gyfle a gafodd i graffu ar yr adroddiad oherwydd nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor Craffu Adfywio a gofynnodd am farn gyfreithiol ar y mater.

Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol fod gan Aelod hawl i ofyn cwestiynau yn y Cyngor ond y byddai hyn yn dibynnu ar natur y cwestiwn ac os yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r adroddiad ac y byddai hyn yn amrywio yn ôl amgylchiadau yr hyn a ofynnir. Mae gan y Cadeirydd bob amser hawl i ganiatáu neu beidio caniatáu chwestiwn a chylch gorchwyl y Cadeirydd fel yr amlinellir yn y Cyfansoddiad yw rheoli trafodaeth, gyda chefnogaeth. Awgrymodd y swyddog y gallai fod yn fuddiol cynnal trafodaeth tu allan i'r cyfarfod yng nghyswllt y paramedrau hyn.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur y byddai trafodaeth yn ddefnyddiol ac yn ei farn ef fod pob cwestiwn a ofynnwyd ar yr agenda wedi cyfeirio at eitemau a gynhwysir o fewn yr adroddiadau.

**Cynllun Profi Tacsis Trydan –** cadarnhaodd y Pennaeth Adfywio bod gyrwyr tacsi wedi medru rhentu cerbydau trydan ers dechrau'r flwyddyn. Roedd rhai heriau gan fod gyrwyr yn awr yn gorfod dysgu sut i yrru cerbydau trydan yn hytrach na cherbydau petrol neu ddisel. Mae hefyd nifer o fannau gwefru sydd angen eu cysylltu gyda ffynonellau pŵer ar gyfer tacsis i ailwefru ac mae hyn yn cael ei drafod gyda'r cwmni cyfleustod i'w flaenoriaethu.

**Cysylltiadau Trafnidiaeth ar Draws y Cymoedd –** holodd Aelod pa waith sy'n mynd rhagddo i gysylltu pentrefi Tredegar a Brynmawr a'r cynnydd a wnaed i gysylltu'r cymoedd hyn gyda gorsafoedd ac ardaloedd diwydiannol ar y cyrion.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau

Cymunedol fod gan Dredegar gysylltiadau i orsaf Rhymni yn ogystal â gorsaf Glynebwy ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gyda'r prif rwydwaith rheilffyrdd yn cael ei uwchraddio mae angen i'r Cyngor newydd gynnal darn o waith i ddatblygu cynllun trafnidiaeth. Byddai angen i'r gwaith hwn gynnwys sut y defnyddir amlder cynyddol gwasanaethau rheilffordd a'i gysylltu gyda gwasanaethau lleol. Nodwyd nad yr awdurdod oedd yr awdurdod trafnidiaeth felly nid oes ganddo gyfrifoldeb am y teithiau bws ond y gellid datblygu cynllun trafnidiaeth rhanbarthol ar y cyd â'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol i gynnwys sut y gallai buddsoddiadau metro ar draws y rhanbarth gysylltu gyda thrafnidiaeth gyhoeddus.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod gwasanaeth bws 'fflecsi' yn cael ei beilota ar hyn o bryd sy'n cynnwys gwasanaethau i stadau diwydiannol a gallai pobl yn gweithio yn stad ddiwydiannol Rasa yn awr deithio i'r safle hwn yn defnyddio'r gwasanaeth bws i weddu i'w patrymau shifft - cafodd hyn adborth cadarnhaol gan y busnesau. Byddai'r cynllun peilot hwn yn llywio penderfyniadau'r dyfodol a byddai'r gwaith rhanbarthol yn llywio trafodaethau ond pwysleisiodd nad y Cyngor yw'r awdurdod trafnidiaeth a bod angen cynnal gwaith mewn nifer o sefydliadau i ddatblygu cynllun trafnidiaeth i'r dyfodol ar gyfer yr awdurdod.

Aeth yr Aelod ymlaen drwy gyfeirio at dacsis trydan a dywedodd bod trefi'r cymoedd yn wahanol iawn i ddinasoedd ac ardaloedd arall a bod y costau yn anodd iawn i yrwyr tacsi. Gofynnodd os yw'r awdurdod yn gweithio ar system i helpu gyrwyr i symud i gerbydau trydan yn y dyfodol.

Dywedodd y Pennaeth Adfywio fod nifer o ardaloedd yn y cymoedd eisoes wedi codi'r pryder hwn a bod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymchwilio cyllido i'w gwneud yn llawer rhwyddach i yrwyr tacsi i fforddio cerbydau trydan yn y dyfodol. Disgwylir canlyniad yr ymchwiliad hwn.

Dywedodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd fod angen gwaith pellach mewn cysylltiad â'r Awdurdod Twristiaeth Rhanbarthol. Er y gwnaed cynnydd yn cynnwys gwasanaethau i rai stadau diwydiannol, mae angen ymestyn hyn mor gyflym ag sydd modd ac mae Trafnidiaeth Cymru yn cydnabod hyn. Fodd bynnag, mae buddsoddiad yn allweddol i gyrraedd y lefel nesaf ac mae gan fysus rôl allweddol yn y dyfodol.

Ychwanegodd yr Aelod a siaradodd yn gynharach fod hyn yn siom

| | | |
|---|---|---|
| | ac roedd wedi codi'r pwynt yn y pwyllgor craffu nifer o weithiau.<br><br>Daeth Arweinydd y Grŵp Llafur i ben drwy ddweud oherwydd nad oedd y cyllid ar gyfer Dolen Abertyleri yn ddim nes at gael ei dderbyn, y gall hyn fod yn gyfle i'r cyngor ailystyried y prosiectau a'r blaenoriaethau a gyflwynwyd i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd fel rhan o'r rhaglen.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 25** | **<u>ADRODDIAD AELODAETH</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i:<br><br>**<u>Cyngor Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan</u>**<br>- penodi dau gynrychiolydd i'r uchod.<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau ar gyfer y swyddi hyn..<br><br>**<u>Panel Ymgynghori ar gyfer Llywodraethwyr Awdurdod Lleol</u>**<br><br>Gwnaed yr argymhellion dilynol gan y Panel ar 25 Ionawr 2022 i benodi:<br><br>**Ysgol Gynradd Georgetown** – Donna Hardman<br><br>**Ysgol Gymraeg Bro Helyg ac Ysgol Sefydliadol Brynmawr** – Cynghorydd John Hill<br><br>**Cymuned Ddysgu Abertyleri** – Cynghorydd Nigel Daniels<br><br>**Cymuned Ddysgu Abertyleri** – Deborah Mary Field<br><br>**Ysgol Gyfun Tredegar** – Peter Harriman<br><br>**Ysgol Gynradd Sant Joseff** – Cynghorydd Malcolm Cross.<br><br>**Ysgol Gynradd Coed y Garn** – Rafi Abbas (cymeradwywyd yn y Panel diwethaf ar 15/11/2021)<br><br>**Ysgol Gynradd Rhos-y-Fedwen** – Cynghorydd Gareth A. Davies<br><br>Nodwyd y cafodd cyfnod swydd y Cynghorydd David Wilkshire ar | |

| | | |
|---|---|---|
| | gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Rhos-y-Fedwen ei ymestyn am 6 mis ychwanegol.<br><br>Felly<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r apwyntiadau uchod. | |
| **No. 26** | **EITEM(AU) EITHRIEDIG**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiadau dilynol sydd ym marn y swyddog priodol yn eitemau eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rhesymau am y penderfyniadau am yr eithriad ar gael ar restr a gedwir gan y swyddog priodol). | |
| **No. 27** | **GORSAF DROSGLWYDDO GWASTRAFF A CHANOLFAN AILGYLCHU GWASTRAFF CARTREFI**<br><br>Nodwyd y cafodd yr eitem hon ei **gohirio** ac y caiff ei hystyried mewn cyfarfod arbennig o'r cyngor ar 7 Chwefror 2022. | |
| **No. 28** | **CAIS I BRYDLESU TIR**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth hon ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei thrin gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol cytuno ar yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion ariannol unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr awdurdod) a chytuno ar Opsiwn 1, sef: | |

| | | |
|---|---|---|
| | Bod y Cyngor fel ymddiriedolwyr elusennol yn fodlon fod y cafodd y gwarediad ei gynnig y gorau y gellid yn rhesymol eu cael ar gyfer yr elusen a chytunodd ymrwymo i brydles ar y darn o dir a ddangosir gydag ymyl goch ar y cynllun a roddir yn Atodiad 1 am gyfnod o dair blynedd neu nesaf cafodd datblygiad HWBC newydd Tredegar ei gwblhau, yn amodol ar:<br><br>• Y sefydliad a enwir yn yr adroddiad yn talu rhent blynyddol o £900.00 y flwyddyn<br>• Unrhyw dderbyniad refeniw yn cael ei neilltuo i gael ei ddefnyddio gan yr elusen i hybu amcanion yr elusen ac nid eu cronni i’w defnyddio o fewn Cronfa Gyffredinol y Cyngor. | |